



Hydref 2014

Holiadur Pysgotwyr

Rydym yn parhau i gyfweld pysgotwyr ledled Cymru. Hyd yn hyn mae 14% o gychod pysgota Cymru sydd wedi eu cofrestru wedi cael eu cyfweld ac rydym am geisio cynyddu'r nifer hwn yn sylweddol yn ystod y tri mis nesaf, yn arbennig yn ardal allweddol Sir Benfro lle mae llawer o bysgotwyr heb gael eu cyfweld eto. Os ydych yn fodlon cael eich cyfweld neu yn adnabod rhywun arall sy'n fodlon, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Julia Pantin ar y ffôn (01248 382607) neu drwy e-bost (j.pantin@bangor.ac.uk). Mae pob un sy'n cymryd rhan yn yr holiadur â chyfle i ennill Trowsus Guy Cotten Bib and Brace neu danysgrifiad i The Fishing News.

Mae'r holiadur hwn o'r pwysigrwydd pennaf gan y bydd yn canfod ardaloedd o'r arfordir sydd bwysicaf i bysgotwyr, yn darparu portffolio o dystiolaeth annibynnol i'r diwydiant pysgota i'w ddefnyddio wrth fynd rhagddo, a llywio ein dealltwriaeth o fioleg y rhywogaethau masnachol pwysig yng Nghymru.

Y gragen foch fwyaf



Tagio cregyn moch mwyaf

Bu Georgia Robson a Zara Turtle yn gweithio'n galed drwy'r haf yn tagio cregyn moch mwyaf yn Abertawe ac oddi ar Benrhyn Llŷn i weld os oedd tagio yn opsiwn hyfyr i amcangyfrif paramedrau'r boblogaeth. Roedd y canlyniadau y tu hwnt i ddisgwyliadau ac roedd ein dulliau i'w gweld yn rhai cadarn. Mae Georgia a Zara wedi cwblhau eu traethawd hir ar gyfer gradd Meistr a bydd adroddiad llawn ar eu darganfyddiadau ar gael yn gynnar yn 2015. Os na allwch aros mor hir â hynny ac os oes gennych unrhyw gwestiynau am y prosiect byddwn yn fwy na pharod i siarad hefo chi amdano, plis cysylltwch â Jodie yn j.haig@bangor.ac.uk.




Cregyn bylchog

Arbrawf dwyster pysgota

Ym mis Medi cynhaliwyd ein 3ydd arolwg adfer ar gyfer yr arbrawf pysgota. Yr amcan oedd asesu cyflwr gwely'r môr 4 mis wedi i ni ei effeithio â thynrwydi cregyn bylchog ar wahanol ddwyster pysgota. Unwaith eto fe wnaethom samplo gyda llusgrwydi paladr, fideos, crafangau, aml baladr a sgan ochr sonar.

Yr arsylw rhagarweiniol yw y gallai'r arfilod fod wedi eu hadfer yn nhermau biomas (pwysau mewn cilogram). Nid ydym eto wedi diffinio os oedd y math o rywogaethau a ganfuwyd yr un fath rhwng y gwahanol driniaethau. Fe wnaethom sylwi fod rhai olion treillio yn aros mewn mannau ar wely'r môr. Eto bydd rhaid edrych yn ofalus ar hyn i weld ym mha ardaloedd (h.y. pa fath o wely môr) ac ar ôl pa lefel o ymdrech y mae'r creithiau hyn yn aros.

Roedd tystiolaeth fod y gwaddodion wedi addasu o fis Mawrth i fis Mai (cyn ac ar ôl pysgota). Efallai fod gronynnau mân iawn yn yr ail ddaliant. Gallai hyn fod wedi effeithio'r cymunedau ffawna fel llyngyr neu fwydod, cregyn deuddarn ac anifeiliaid eraill sy'n byw yn y gwaddodion ac sy'n tueddu i gysylltu â mathau o waddod o gyfansoddiad penodol. Nid ydym eto'n gwybod os yw'r ail ddaliant o waddodion mân iawn, yn arwain at gyfansoddiad mwy bras ar wely'r môr, wedi effeithio ar y ffawna yn y gwaddodion ac os yw'r cymunedau wedi eu hadfer, ond mae'r dadansoddiadau'n parhau.



Ar yr echel fertigol (B) mae'r biomas (pwysau gwlyb yr anifeiliaid fesul uned ardal). Ar yr echel llorweddol mae dwyster pysgota, y nifer o weithiau mae wedi'i bysgota yn mynd o 1 i 6. Roedd dirywiad yn y biomas o bysgota isel i uchel ym Mai, yn union ar ôl yr arbrawf, ond ym mis Medi mae'r graddiant yr un fath ag un Mai, h.y. mae'n ymddangos fod y biomas wedi adfer. Nodwch fod y cregyn bylchog a'r sêr brau wedi eu heithrio o'r dadansoddiad hwn.



Cramenogion

Corgimychiaid




Mae adolygiad llenyddol o bysgodfa *Palaemon serratus* ar gael ar ein gwefan a bydd adroddiad llawn o ddata dibyniaeth ar bysgodfeydd tymhorol ar gael ar-lein cyn bo hir. O fis Mai 2014 tan fis Mai 2015 gofynnwyd i bysgotwyr o gwmpas Cymru i ddarparu samplau o gewyll gwyddonol. Daeth y gaeaf â thywydd dychrynlyd gydag o, a doedd dim cymaint â hynny o gychod gorgimychiaid allan yn pysgota. Mae'r samplau wedi eu dadansoddi'n fiolegol ac yn forffolegol ac mae rhai patrymau diddorol yn ymddangos. Am mai ychydig o samplau a gasglwyd llynedd, bydd y gaeaf hwn yn hanfodol i gadarnhau'r canfyddiadau hynny ac edrychwn ymlaen at weithio gyda physgotwyr drwy'r tymor gorgimychiaid sydd ar y gorwel.



Diolch i fyfyrwyr Bangor Gemma Rayner a Matthew Kings, yma yn didoli cynnwys rhwydi Seine ar draeth ar Ynys Môn (chwith). Ymunodd Alessandra Targino â ni am dri mis ar leoliad o Brasil i rwydo drwy'r haf ac roedd o gymorth mawr yn y labordy hefyd. (de)

Mae samplau'r haf wedi ei gwblhau ac rydym yn prosesu'r samplau yn y labordy. Bu i'n tîm Ynys Môn a thimau Bae Ceredigion rwydo gyda'r glannau drwy'r haf i benderfynu ar batrymau mynegai a defnydd o gynefin gan *Palaemon serratus* ifanc. Y prosiect hwn yw'r cyntaf mewn beth fydd, gobeithio, yn gyfres tymor hir o ddata cyflenwad rhai ifanc. Gobeithiwn ddefnyddio'r mynegai data hwn i lywio rheolaeth pysgodfa *Palaemon* yn y dyfodol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Jodie, ar j.haig@bangor.ac.uk.

Cranc coch



Cranc coch ifanc, *Cancer pagurus*

Mae Marc Uya, sy'n fyfyrwr gradd Meistr, wedi disgrifio y rhyngweithio rhwng *Cancer pagurus* (cranc coch) a *Carcinus maenas* (cranc glas) ar y traeth ac wedi datblygu model o gyflenwad crancod ifanc i gynefinoedd ar hyd arfordir Cymru. Mae wedi cyflwyno ei draethawd hir ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar gyhoeddiad.

Mae Babette Bookelar yn fyfyrwr ar leoliad o'r Iseldiroedd sy'n edrych ar y ddefnydd o gynefin gan grancod ifanc a chimychiaid mewn cynefinoedd is llanwol. Bu Babette yn gweithio o Borth Neigwl ym Mhen Llŷn drwy'r haf ac mae'n casglu rhai data diddorol iawn. (gweler yr adran nesaf islaw).

Cwblhaodd Gemma Rayner yr astudiaeth o ffrwythlondeb cranc ac astudiaeth morffometrig ac mae adroddiad llawn ar *Cancer pagurus* wrthi'n cael ei baratoi.


Arolwg cramenogion ifanc



Yn ystod yr haf diwethaf (2013) dechreuom arolwg yn ymchwilio i ddewis cynefin y cranc coch (*Cancer pagurus*) a'r cimwch Ewropeaidd (*Homarus gammarus*) ar arfordir Pen Llŷn. Defnyddiwyd tri safle astudio ac ailadroddwyd hyn eleni gyda cewyll wedi eu gosod mewn cynefinoedd gwahanol i geisio canfod a dileu dewisiadau cynefin. Yn gyfangwbl codwyd ac archwiliwyd y cewyll 22 o weithiau yn 2013 a 2014. Recordiwyd y cynefinoedd gan ddefnyddio camera wedi ei ollwng i lawr bob tro y codwyd y cewyll.

Mae'r canlyniadau cyntaf yn dangos fod dros 60% o'r crancod a ddaliwyd yn wrywaidd, tra roedd y cimychiaid benywaidd yn drechaf ar 60%. Canfuwyd nad oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn hyd cramen y gwrywod a'r benywod yn y crancod na'r cimychiaid. Roedd y daliad fesul ymdrech uned (CPUE) am grancod, ar ei uchaf ar y gwelyau cregyn gleision. Canfuwyd yr hyd lleiaf i gramen ar y safle hwn. Roedd yr CPUE uchaf i gimychiaid a'r mesur lleiaf o hyd y gramen ar riff clogfeini ac ni ddaliwyd yr un cimwch ar welyau'r cregyn gleision. Roedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn hyd cramen rhwng cynefinoedd serch hynny. Ym mis Medi cynhaliwyd arolwg i ganfod dewis gynefinoedd drwy ddefnyddio'r rheng sy'n hedfan. Dangosodd hyn fod cynefinoedd yn anghyson

iawn, yn arbennig ym Mhorth Neigwl. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r stormydd cryf yn ystod hydref 2013 a gwanwyn 2014. Roedd ffresni a'r math o abwyd yn ymddangos fel pe bai'n cael effaith fawr ar CPUE y crancod ifanc a'r cimychiaid. Yn gyffredinol abwyd oedd yn cynnwys rhywogaethau o bysgod tua 3 wythnos oed a ddefnyddiwyd. Pan ddefnyddiwyd hen abwyd un diwrnod, roedd rhifau'r daliad yn uwch. Mae mwy o ganlyniadau yn dod.



Mae'r graffiau'n dangos y daliad fesul ymdrech uned (CPUE) o grancod coch a chimychiaid ar wahanol gynefinoedd.

Gallwch weld hoffter y cranc coch o welyau y gragen las a'r cimychiaid o riff clogfeini.

Yn gyffredinol mae'r astudiaeth hon wedi rhoi syniad am ddewis gynefin y crancod coch a chimychiaid. Yn y rhan nesaf gellir defnyddio'r rheng sy'n hedfan i ganfod lleoliadau newydd gyda strwythurau cynefin dethol yn bresennol ond gydag amodau amgylcheddol gwahanol (lefelau pa mor agored yw'r cynefin i'r tywydd, gorchudd algaidd (faint o wymon sydd yna), ac anghysondeb cynefin). Yn y dyfodol byddai'n ddiddorol casglu rhagor o ddata er mwyn gwneud astudiaeth cydberthynol i ganfod effeithiau strwythurau cynefin, newidynnau amgylcheddol a graddfa dymhorol a'u rhyngweithio.



Y gaeaf hwn 2014/15

Mae gennym astudiaeth gynhyrfus gydweithredol yn archwilio maint aeddfedrwydd y cranc coch. Bydd cydweithredwyr o'r Iwerddon, yr Alban, Cymru, Gogledd ddwyrain Lloegr, De orllewin Lloegr ac Ynys Manaw yn darparu samplau i'n galluogi'n well i asesu stoc a phenderfynu os oes gwahaniaethau rhanbarthol ym maint y rhywogaeth pan maent yn aeddfedu. Byddwn yn cydweithio gyda physgotwyr o gwmpas Cymru i gasglu samplau ac os oes gennych ddiddordeb i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon edrychwn ymlaen at glywed gennych. Cysylltwch, os gwelwch yn dda â Jodie ar j.haig@bangor.ac.uk.



Pysgod adeiniog

Mynegai draenogiaid môr


Rydym yn cwblhau ein prosiect "mynegai draenogiaid môr" eleni ac rydym yn dechrau ar y dadansoddiad perthynol. Rydym wedi rhwydo o amgylch Cymru i gyd ac mae'r cyflenwad o draenogiaid môr ifanc wedi bod yn llawer uwch na'r llynedd. Rydym hefyd yn dadansoddi cyfansoddiad rhywogaethau'r daliad yn y rhwydi am y ddwy flynedd ddilynol olaf (2013 a 2014) a bydd y canlyniadau ar gael yn fuan. Diolch i'n myfyriwr dros yr haf, Charlie William Key am ei gefnogaeth frwdfrydig a'i gymorth!



Draenogyn môr bach (grŵp O) wedi'i ddal yn ein rhwyd yn Ne Cymru


Dadansoddiad isotop sefydlog draenogiaid môr

Gyda'r rhediad o samplau yr isotop sefydlog newydd rydym yn adeiladu darlun da o lofnodion isotopig draenogiaid môr a ganfuwyd rhwng Gogledd, Canolbarth a De Cymru. Mae hyn yn glŷn â draenogiaid môr sy'n oedolion yn ystod y tymor cyn silio. Mae'r model dosbarthiad a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi yn gywir yn adnabod 76% o'r pysgod yn ôl eu gwahanol ardaloedd (ogledd, canol a de Cymru) (gweler y graff cyntaf isod). Yn ne Cymru mae hyd yn oed llai o gamgymeriad yn y dosbarthiad gan fod ganddynt lofnod isotopig mwy nodedig (gweler ail graff isod). Mae hyn yn awgrymu nad yw y pysgod yn y de yn symud gymaint pan fyddant yn bwydo, gan aros mewn ardal debyg. Nesaf byddwn yn cymharu'r canlyniadau hyn gyda'r oedolion o ddraenogiaid môr sydd wedi eu dal yn ystod y tymor silio i ganfod y gwahaniaethau a'r tebygrwydd yn y patrwm symud posibl.



Darluniad o lefel y gwahaniad rhwng y gwahanol ranbarthau yn seiliedig ar y signal isotopig a ganfuwyd yng nghanol draenogiaid môr yn ystod y tymor cyn silio (Awst-Tachwedd).

Graddfa gwallau yn erbyn y goeden deuluol



Darluniad o gamgymeriad dosbarthiad rhwng gwahanol rhanbarthau yn seiliedig ar y model dosbarthiad wedi ei ddatblygu o'r signal isotopig a ganfuwyd mewn cen oedolion draenogiaid môr yn ystod y tymor cyn silio (Awst-Tachwedd).



Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:
Buddsoddi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy
European Fisheries Fund:
Investing in Sustainable Fisheries



Llywodraeth Cymru
Welsh Government